

Cysgodfeydd ysmygu



Bydd y wybodaeth hon yn helpu pobl sydd am gael gwell dealltwriaeth o'r materion y bydd y Cyngor yn eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a oes angen gwneud cais cynllunio ar gyfer cysgodfeydd ysmygu. Bydd y nodyn yn ffurfio ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio perthnasol.

Ni all y canllawiau hyn gwmpasu pob sefyllfa a gwahoddir ymgeiswyr ac asiantau i drafod cynigion gyda'r swyddog cynllunio cyn cyflwyno cais yn ffurfiol. Mae pob achos yn wahanol ac ni allwn warantu y cewch ganiatâd am gydymffurfio â'r canllawiau yn unig.

Mae'r daflen ar gael mewn fformatiau eraill ar gais

Pryd mae angen caniatâd arnaf?

Mae angen caniatâd cynllunio os newidir defnydd neu os oes angen gwneud gwaith adeiladu i greu cysgodfa. Mae angen gwneud cais newid defnydd os yw'r gysgodfa yn mynd o fewn ardal nad yw'n ffurfio rhan o'r dafarn/bwyty presennol.

Ni fyddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer adeilad dros dro, a dynnir ar ddiwedd y dydd fel arfer (e.e. ymbarél bach). Mae'n debyg y byddai angen caniatâd ar gyfer adeilad sydd ynghlwm wrth y llawr yn barhaol oni bai ei fod yn fach ac yn guddiedig o olwg y cyhoedd.

Mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd i geisiadau am gysgodfeydd mewn ardaloedd cadwraeth os yw'r lleoliad yn un amlwg, er bod y dyluniadau yn dderbyniol ar wahân i hynny. Mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd i geisiadau am gysgodfeydd sydd ynghlwm wrth adeiladau rhestredig. Dylai cysgodfeydd arfaethedig ar eiddo arall ddilyn y canllawiau hyn.

Os oes unrhyw amheuaeth, fe'ch cynghorir yn gryf i gysylltu â'r adran gynllunio i gael eglurhad o'r sefyllfa. Fel hyn gallwch osgoi gwneud gwaith a mynd i gostau yn ofer.

Canllawiau

Bwriad y canllawiau hyn yw eich annog i ystyried y materion a fyddai'n codi pe bai cais cynllunio'n cael ei wneud fel y gallwch roi'r cyfle gorau i'ch cais gael caniatâd.

- Yn gyffredinol, disgwylir i'r strwythur gael ei adeiladu yn defnyddio deunyddiau ysgafn fel y gellir gweld yn amlwg nad yw'n ychwanegiad parhaol i'r eiddo. Yn ddelfrydol, byddai'n sefyll ar wahân hyd yn oed os yw'r pellter rhyngddynt ond yn fach fel na adewir unrhyw olion wrth ei dynnu.
- Dylid eu lleoli fel nad oes raid i bobl gerdded trwyddynt i gael mynediad.
- Ni ddylent atal mynediad i'r anabl.
- Ni ddylid eu gosod mewn man lle bydd unrhyw fwg yn debygol o fynd i mewn i'r eiddo neu eiddo cyfagos trwy ffenestri, drysau neu agoriadau eraill sydd ar agor i gael awyr iach.
- Dylid eu lleoli fel nad ydynt yn achosi i bobl fod yn niwsans i eiddo cyfagos trwy swn neu aflonyddwch - yn arbennig yn hwyr yn y nos.
- Os bod TCC wedi ei sefydlu ar yr eiddo rhaid i'r camerau gwmpasu y cysgodfa.

Er bod rhaid i'r strwythur fod yn ysgafn ei ymddangosiad, dylai'r deunyddiau a ddefnyddir i'w adeiladu fod o ansawdd da ac yn wydn. Mae'n annhebygol y cymeradwyir llenni plastig a deunyddiau sy'n amlwg yn ail-law.

Dylid cael cyn lleied ag sy'n bosibl o olau a gwres oherwydd yr angen i gadw ynni a pheidio ag ychwanegu'n sylweddol at lygredd golau.

Mae unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir yn debygol o fod am gyfnod dros dro o flwyddyn i alluogi'r Cyngor i fonitro ei ymddangosiad a'r effaith ar adeiladau cyfagos. Rhoddir caniatâd i adnewyddu os yw'r strwythur wedi'i gadw mewn safon dda, nid oes unrhyw faterion wedi codi o ganlyniad i'w ddefnydd a bod penderfyniad wedi'i wneud bod ei angen er mwyn cynnal hyfywdra defnydd cyfreithiol presennol yr eiddo.

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r:

Adran Gynllunio,
Neuadd y Dref, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR.
Ffôn: (01978) 292017
Ffacs: (01978) 292502
E-bost: planning@wrexham.gov.uk
www.wrecsam.gov.uk

Chwefror 2007